



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



DIOGELU CYMRU



# Covid-19

## Gwybodaeth Allweddol

Ers dechrau argyfwng Covid-19 mae ein nod wedi bod yn glir: diogelu iechyd y cyhoedd a diogelu'r gwasanaeth iechyd gwladol (GIG).

Wrth inni fwrw ati i ailagor ein cymdeithas a'r economi yng Nghymru, mae'r nodau hyn yn parhau.

Felly, mae gennym rai canllawiau y mae angen i fusnesau eu dilyn. Dylai busnesau weithredu mewn ffordd ddiogel a chyfreithlon o dan y canllawiau hyn, mewn dau faes sydd â phum pwynt i weithio tuag atynt.

Mae Busnes Cymru hefyd ar gael i gefnogi sefydliadau o bob maint drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ymarferol.

## Diogelu Busnes gyda'n Gilydd

## Cadwch yn Ddiogel

### 1. Iechyd y gweithlu

Os bydd rhywun yn dechrau teimlo'n sâl yn y gweithle gyda pheswch cyson, newydd; tymheredd uchel; a'i fod yn colli ei synnwyr arogleuo neu flasu arferol neu fod hynny'n newid, dylai gael ei anfon adref a dylid ei gynghori i ddilyn y cyngor ar aros gartref.

Dylai cyflogwyr ddefnyddio eu disgrisiwn o ran yr angen am dystiolaeth feddygol i ardystio cyflogeion sy'n sâl. Bydd hyn yn galluogi meddygon teulu i ganolbwyntio ar eu cleifion.

Os bydd angen tystiolaeth ar gyflogwr, gall y rhai sydd â symptomau'r coronafeirws gael nodyn ynysu drwy ddefnyddio gwiriwr symptomau Covid-19 GIG 111 Cymru.

### 2. Profi, Olrhain, Diogelu

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei [Strategaeth Profi Olrhain Diogelu](#) fydd yn ein helpu i fyw a gweithio gyda'r feirws tra bod ymchwil yn parhau i ddod o hyd i driniaethau effeithiol a brechlyn.

Bydd Profi Olrhain Diogelu yn gweithio trwy:

- Profi'r bobl hynny sy'n dangos symptomau coronafeirws, gan holi iddynt ymynysu o'r teulu a'u ffrindiau ehangach a'u cymuned tra'n cymryd prawf ac yn aros am y canlyniad. Gellid dod o hyd i wybodaeth bellach ar beth i'w wneud i'ch gwarchod eich hun ac eraill [yma](#). Gall pob gweithwr allweddol ac aelodau'r cyhoedd wneud cais am brawf coronafeirws yn y [fan hon](#).
- Olrhain pobl sydd wedi bod mewn cyswllt agos gyda phobl sydd wedi profi'n positif gyda'r feirws, gan ei gwneud hi'n angenrheidiol iddynt gymryd rhagofalon trwy hunan-ynysu. Ceir rhagor o wybodaeth ar Profi Olrhain Diogelu a sut fydd y cyfan yn gweithio [yma](#).
- Roi cyngor a chanllawiau, yn arbennig os oes gan yr unigolyn symptomau neu os yw aelodau o'u cylch cyswllt ymhlith pobl a ddifinnir ar sail feddygol fel rhai eithriadol o agored i niwed neu'n y garfan 'wrth risg' neu rai sy'n agored i niwed ac yn agored i fwy o risg.
- Sicrhau – os nad coronafirws sy'n achosi'r symptomau – bod unigolion yn gallu dychwelyd i'r gwaith a'u patrymau arferol cyn gynted ag sy'n bosibl.

Gweler ymhellach [Canllawiau i Gyflogwyr a Busnesau yng Nghymru](#).

## Cadwch o fewn y Gyfraith

### 3. Ailddechrau neu weithredu eich busnes

Mae Rheoliadau'r Coronafeirws yn gosod nifer o gyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau eraill – mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n barhaus wrth i ni ddatgloi economi Cymru yn raddol ac mae'r rhestr lawn o fusnesau a safleoedd sydd yn gorfod bod ar gau yng Nghymru ar hyn o bryd o ganlyniad i'r coronafeirws [ar gael yma](#).

Os ydych yn gallu gweithredu eich busnes rhaid ichi wneud hynny'n ddiogel mewn ffordd sy'n cydymffurfio â unrhyw gyfyngiadau a osodir gan Reoliadau'r Coronafeirws, yn ogystal â rhwymedigaethau cyfreithiol eraill ar gyflogwyr (fel deddfwriaeth iechyd a diogelwch).

Dylai gweithwyr ddychwelyd i'w gweithle os **nad** yw'n rhesymol ymarferol iddynt weithio o adref.

### 4. Cadw Pellter Corfforol

Mae Rheoliadau'r Coronafeirws yn gosod gofyniad cyfreithiol ar weithleoedd i gymryd pob cam rhesymol i gynnal pellter corfforol o 2m rhwng unigolion ar eu safle/oedd. [Lluniwyd canllawiau](#) er mwyn helpu pobl i ddeall yr hyn mae "cymryd pob cam rhesymol" yn ei olygu a beth i'w wneud os na ellir cadw pellter o 2 fetr mewn rhai amgylchiadau. Mae methiant i gydymffurfio â'r dyletswydd pellter corfforol yng Nghymru heb esgus rhesymol yn drosedd, a gallai collfarn arwain at ddirwy.

### 5. Asesiad Risg

Dylai pob risg gael ei asesu, gan gynnal trafodaethau ystyrlon â staff a/neu eu hundeb llafur cydnabyddedig, cyn ailddechrau gweithio. Os yw'n ofyniad cyfreithiol i'r busnes neu'r sefydliad sicrhau bod ganddo asesiad risg ysgrifenedig (os oes 5 neu fwy o gyflogeion) yna rhaid ysgrifennu canfyddiadau arwyddocaol a rhoi camau rheoli ar waith. Mae asesiadau risg yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer menywod beichiog, waeth beth yw maint y busnes.